# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Hydref 2015

Amser: 09.00 - 10.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3250

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Syr Derek Jones, Llywodraeth Cymru<br>Peter Kennedy, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Richard Harries (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru) |

TRAWSGRIFIAD

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 274KB) Gweld fel HTML (333KB)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.3 Datganodd Sandy Mewies AC fuddiant fel Aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Craffu ar Gyfrifon 2014-15: Gwybodaeth ychwanegol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru

## 3 Craffu ar Gyfrifon 2014-15: Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15:

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15, gan holi Syr Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol, David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Gawain Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd Syr Derek Jones i anfon rhagor o wybodaeth am y materion canlynol:

- Manylion y traffig i wefan Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru a nifer y bobl a fu'n ymweld â'r wefan, i roi arwydd ynghylch nifer y darllenwyr.
- Rhesymau pam y mae swm y gwastraff bwyd drwy ystâd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ers 2013-14
- Rhesymau pam nad yw cronfa risg y GIG wedi cael ei nodi fel eitemau unigol yn y cyfrifon cyfunol ar gyfer 2014-15 fel y bu yn y gorffennol, ac eglurhad ynghylch pam nad yw'r wybodaeth hon wedi cael ei nodi yn y cyfrifon
- Darparu dadansoddiad llawn o'r eitemau nad ydynt yn arian parod a gwariant a reolir yn flynyddol, a chynnwys y ffigurau ar gyfer 2013-14 er mwyn eu cymharu

- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â rheoli arian parod, ac yn benodol y tanwariant o £86.8m yn ymwneud â byrddau iechyd
- Manylion ar yr hyn y mae'r £19.6m ar gyfer cyfrifoldebau eraill yn ei gynnwys
- Pryd yr oedd disgwyl cael y derbynebau gwreiddiol ar gyfer y taliadau arbennig yn ymwneud â Chwmni Peirianneg Tryst a Swyddfa Desk Link
- Y sefyllfa o ran ailstocio cyffuriau gwrth-firol ar gyfer achosion o ffliw pandemig
- Achos y colledion o ran Dewis Gyrfa Cyf

3.3 Wrth ystyried y dystiolaeth a gafwyd, gofynnodd yr Aelodau i'r Ysgrifennydd Parhaol anfon manylion ynghylch sut y bydd ei strategaeth i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau o 50:50 erbyn 20:20 yn cael ei gyflawni.

## 4 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Gohebiaeth y Pwyllgor

4.1 Nododd yr aelodau yr ohebiaeth.

4.2 Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn gofyn i lywodraeth leol ddarparu gwybodaeth fanylach am yr hyn yw bwriad pob cronfa wrth gefn a sut y maent yn disgwyl eu gwario dros gyfnod o amser.

4.3 Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn annhebygol y bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar y mater hwn cyn diwedd tymor y Cynulliad.

## 5 Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

5.1 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurhad ar yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

# 7 Craffu ar Gyfrifon 2014-15: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.